

JENKINS, DAVID ERWYD (1864 - 1937), hanesydd, a gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd

Enw: David Erwyd Jenkins
Dyddiad geni: 1864
Dyddiad marw: 1937
Rhiant: Sarah Jenkins
Rhiant: John Jenkins
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hanesydd, a gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1864 yn Llwyn-y-wiwer, Pont Yates (Llangyndeyrn), yn fab i John a Sarah Jenkins. Bedyddwyr oedd ei rieni, ond pan aeth ef yn brentis mewn siop yn Llanelli, ymaelododd yn y Capel Newydd. Wedi bwrw tymor yn Llundain, aeth yn was i ddilledydd yng Nghasnewydd, ac yno (yn Ebeneser) y dechreuodd bregethu, yn 1885. Aeth i ysgol [Thomas James](#) yn Llandysul, ac oddi yno i Goleg Aberystwyth. Derbyniodd alwad i Saron, Llanbadarn-fawr, yn 1893, ac ordeiniwyd ef yn 1894. Ymhen dwy flynedd, symudodd i gapel Saesneg Tremadog. Yno, yn 1899, y cyhoeddodd y gyfrol *Beddgelert*, ac amryw gyfieithiadau yn y gyfres ' *Cyfres Ieuenticid Cymru*. ' Yn 1901, galwyd ef i gapel Saesneg Dinbych. Yn Ninbych y dechreuodd ei yrfa fel chwilotwr i hanes ei gyfundeb. Adargraffodd (1905 a 1906) ddau hen bamffled gwrth- Fethodistaidd [T. E. Owen](#) a [Hugh Davies](#) o'r Aber. Ond ei gampwaith oedd ei dair cyfrol ddi-hysbyddol *Thomas Charles*, 1908, llyfr a ddug iddo'r radd o D.Litt. gan Brifysgol Lerpwl. Ymddeolodd o'i ofalaeth yn 1911 - y flwyddyn y cyhoeddodd *Calvinistic Methodist Holy Orders*, llyfr bychan sy'n enghraifft well o'i fedr fel hanesydd na'r gwaith afrosgo, ac anghymesur braidd, ar [Thomas Charles](#). Penodwyd ef yn awr yn fath o chwilotwr swyddogol i'w gyfundeb, a dechreuodd ar y gwaith o gopio a chyhoeddi llythyrau a dyddlyfrau Trefeca, mewn atodiadau i *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calфинаidd*, ond aeth y cynllun o chwith, torrodd rhyfel 1914, ac aeth yntau (1915) yn athro yn ysgol ganolradd Dinbych; parhaodd felly hyd 1930. Bu farw 6 Medi 1937, yn Llwyn-yr-eos, Pont-Henri (pan ar ymweliad â'i ardal enedigol), a chladdwyd ef yno ym mynwent y Bedyddwyr; y Sul cynt, yr oedd wedi pregethu yn Ebeneser, Casnewydd, y capel y pregethodd gyntaf ynddo. Heblaw'r llyfrau a enwyd, sgrifennodd nifer da o ysgrifau i'r cyfnodolion, ar hanes Methodistiaeth; bron ar ddiwedd ei oes, dychwelodd at y gwaith o adangraffu hen ddogfennau, gyda *Religious Societies* Josiah Woodward, a gyhoeddodd yn 1935. Yr oedd yn chwilotwr o grafter a dycnwch anarferol. Nid oedd ei arddull yn hapus; sgrifennai braidd yn ddadleugar, onid yn wir yn herfeiddiol, a thueddid felly i'w gam-farnu - ond yr oedd mewn gwirionedd yn hynod garedig a chymwynasgar i'w gyd-chwilotwyr, a rhoddai help ewyllysgar pan ofynnid ganddo.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calфинаidd, xxii, 148-55

cofysgrifau eraill

adnabyddiaeth bersonol

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [48725661](#)

Wikidata: [Q18658485](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

